# Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

**343 - Beirniadaeth Rhyddiaith Bl 10 ac 11**

**Beirniad: Steffan Messenger**

Mae yna rywbeth i'w ganmol yng ngwaith pob un o'r wyth ymgesiydd ac ambell lais cryf a hyderus yn datblygu. Yr awgrym pennaf sydd gen i yw atgoffa pawb o bwysigrwydd dychwelyd at yr hyn ry'ch chi wedi'i ysgrifennu a cheisio golygu – tynhau'r stori, cryfhau'r disgrifiadau. Wedi cryn bendronni dwi wedi ffafrio darnau sy'n taro deuddeg am ysgrifennu syml a bachog. Dyma bwt am y tri sy'n dod i'r brig y tro hwn – ond diolch am gael darllen bob ymgais.

Egin stori sydd gan y Llwynog mewn arddull ffuglen hanesyddol am ferch o deulu bonedd. Dyma ddarn sy'n dangos addewid – y cymeriadau a'r lleoliad wedi'u paentio'n gelfydd drwy eiriau'r storiwr. Ond dwi'n dweud "egin stori" am fod angen datblygu ac ymestyn.

Araith genedlaetholgar fwy neu lai yw ymgais Dienw a'r ysgrifennu'n fywiog fel y "trydan anweledig" a gyfeirir ato yn y darn. Ymysg y cyffyrddiadau mwyaf effeithiol mae'r defnydd o gwestiynau er mwyn cynnwys y darllenydd neu'r gynulleidfa a denu ymateb.

Mae'n amlwg bod dawn dweud stori gan Delyth – sy'n cyflwyno un o'r hanesion mwyaf difyr yn y gystadleuaeth – wrth i ddyn ddeffro mewn gwely ysbyty gan sylweddoli'n raddol bod degawdau wedi treulio ag yntau mewn coma. Gwaith disgrifio clodwiw sy'n llwyddo i greu awyrgylch - dalia ati i 'sgrifennu!

Delyth sy'n hawlio'r wobr gyntaf, Dienw yn ail a'r Llwynog yn drydydd.

1af - Gwen Jones   2il - Elin Williams   3ydd - Elan Small